PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 1**

**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

## Adnodd 8

# *Mudiadau Cymdeithasol 2: Dulliau Dylanwadu*

## Canllaw i Athrawon

International Politics / Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn ar ddulliau dylanwadu mudiadau cymdeithasol yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 1: Syniadau Hanfodol i Ddeall Systemau Gwleidyddol***. Mae pob adnodd wedi'i deilwra i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Nid yw'r adnodd yn cwmpasu'r holl faterion yn y fanyleb ac amlinellir isod wybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar y fanyleb sy'n cael sylw yn yr adnodd hwn..

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| **Adnodd 8:<br>Mudiadau cymdeithasol 2:<br>Dulliau Dylanwadu** | **2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth<br>– Dulliau ac adnoddau gan gynnwys defnyddio technolegau newydd.<br>– Natur fyd-eang rhai mudiadau cymdeithasol.<br>– Y mudiad i fenywod fel enghraifft o fudiad cymdeithasol.<br>– Dadleuon ynghylch effeithiolrwydd mudiadau cymdeithasol.** |

Noder felly nad oes sylw i'r mudiad amgylcheddol, ond fe roddir sylw i'r mudiad hawliau sifil yn yr UDA. Mae cyswllt cryf rhwng Adnodd 7 ac 8 a'r ddau yn adeiladu ar ei gilydd, gydag Adnodd 7 yn darparu'r sail i'r materion a drafodir mewn manylder yn Adnodd 8 yn sgil trafod sut i ddiffinio'r cysyniad o fudiadau cymdeithasol, aelodaeth a nodau, a nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng carfanau pwyso a mudiadau cymdeithasol. Ar sail hyn, trafodir yn fwy trylwyr yn Adnodd 8 ddulliau ac adnoddau mudiadau cymdeithasol, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd. Ystyrir hefyd y dadleuon ynghylch effeithiolrwydd mudiadau cymdeithasol. O ran enghreifftiau o fudiadau cymdeithasol, rhoddir sylw yn yr adnodd hwn i'r mudiad i fenywod.

Bwriad y canllaw i athrawon yw cynnig gorolwg o'r pwnc mewn modd sy'n dilyn yn agosach yr elfennau a amlinellir yn y fanyleb. Cynigir hefyd amlinelliad o'r ymarferion sydd yn y llawlyfr gwaith.

## Dulliau ac adnoddau gan gynnwys defnyddio technolegau newydd

Amlinellir yr ehangder y dulliau all mudiadau cymdeithasol eu defnyddio, gan gwmpasu dulliau arferol o brotestio mewn cymdeithasau gorllewinol sy'n heddychlon ac yn aml yn dorfol, a dulliau eraill mwy anghonfensiynol ac uniongyrchol gan gynnwys anufudd-dod sifil a thor-cyfraith. Er mwyn i ddisgyblion gael syniad o'r ystod gyfan o ddulliau sydd ar gael i fudiadau cymdeithasol, cyfeirir hefyd at strategaethau treisgar a'r mathau o gyd-destunau ble gall mudiadau cymdeithasol benderfynu ei bod hi'n briodol eu defnyddio. Pwysleisir bod yn rhaid i fudiadau addasu eu dulliau i'r adnoddau, y cyfleon a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu. Gwnânt benderfyniadau pwysig ynghylch pa dactegau fydd fwyaf priodol i ddylanwadu ar dargedau penodol, e.e. y llywodraeth neu'r gymdeithas a'r ymateb rhagwelir i'w defnydd.

Trafodir y math o adnoddau sy'n bwysig i fudiadau cymdeithasol, gan ganolbwyntio yn bennaf ar arian, pobl a'r gallu i ddatblygu capasiti proffesiynol. Gall yr elfennau hyn ddylanwadu'n uniongyrchol ar y math o dactegau a dulliau sy'n cael eu dewis gan fudiad.

Yn gysylltiedig â hyn, ystyrir hefyd y cyfraniad mae technoleg yn ei wneud i waith mudiadau o ran cyfrannu at ledaenu eu neges a'r cyfraniadau mwy ymarferol o ran trefnu mewnol mudiad, datblygu rhwydweithiau a chynnal ymgyrchoedd. Amlygir rhai o'r cwestiynau ynghylch cyfraniad technolegau newydd i weithgarwch mudiadau o ran goblygiadau i natur yr aelodaeth ac awgrymir bod dylanwadu ar y cyfryngau traddodiadol yn parhau yn allweddol er yr heriau wynebir o ran dylanwadu arnynt.

**Targedau mudiadau cymdeithasol**

Er mwyn datblygu dealltwriaeth drylwyr o rôl a chwmpas mudiadau cymdeithasol, trafodir hefyd y math o gyrff a dargedir gan fudiadau ac amlinellir y math o amcanion all fod gan fudiad mewn perthynas â nhw. Mae'r tabl yn amlinellu felly yr ystod o grwpiau a sefydliadau mae mudiadau yn ceisio dylanwadu arnynt. Ochr yn ochr â'r drafodaeth flaenorol ar y dulliau sydd ar gael i fudiadau gall disgyblion ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r pwyso a mesur a wneir gan fudiadau cymdeithasol wrth benderfynu ar sut i fynd at i ymgyrchu: pa gyrff a sefydliadau i'w targedu gan ddefnyddio pa ddulliau.

**Dadleuon ynghylch effeithiolrwydd mudiadau cymdeithasol**

Y prif bwynt a godir wrth drafod effeithiolrwydd mudiadau cymdeithasol yw tynnu sylw at rai o'r gwahanol ffyrdd o asesu effaith neu lwyddiant (a methiant) mudiadau a'r modd mae'r mater hwn yn destun dadl. Mae gofyn felly asesu yn feirniadol pa fath o feini prawf i'w defnyddio wrth asesu effeithiolrwydd mudiadau ac amlinellir rhai syniadau yn y testun. Dangosa enghraifft Mudiad Hawliau Sifil UDA bwysigrwydd asesu effeithiau byr a hir dymor mudiadau a pha mor eang y gall yr effeithiau fod y tu hwnt i newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol penodol.

## Ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith

Ceir ystod fwy amrywiol o ymarferion ar gyfer Adnodd 8 na Adnodd 7 ond mae nifer ohonynt yn gysylltiedig gyda materion a drafodir yn Adnodd 7 hefyd.

Mae'r ymarferion yn cynnwys:

: darparu'r cyfle i werthuso'n fanylach y mathau o ddulliau all mudiadau cymdeithasol eu ddefnyddio i brotestio.

: ymarfer sy'n gofyn am ddadansoddi gwybodaeth am y mudiad i fenywod i'w ddefnyddio fel modd o drafod enghreifftiau o nodweddion, mathau a dulliau mudiadau a drafodir yn Adnodd 7 ac 8.

: ymarferiad sy'n pwyso a mesur pwysigrwydd y cyfryngau i fudiadau cymdeithasol ac yn rhoi sail ar gyfer datblygu ymwneud pellach gyda'r pwnc.

: Tasg dadansoddi dyfyniad o ran datblygiad y mudiad i fenywod

: Awgrymiadau o gwestiynau ar gyfer atebion mwy estynedig.